

Gras

Darllen: 1 Corinthiaid 15:10

Pa bryd y byddwch chi'n hel meddyliau ac yn meddwl am syniadau? Yn ystod y dydd neu yn oriau'r nos? Droeon, rydw i wedi deffro ganol nos a syniad hynod wreiddiol wedi dod o ddyfnderoedd fy isymwybod a minnau'n ei gofnodi ar y darn papur wrth ochr y gwely. Deffro yn y bore ac edrych ar y papur, ond erbyn hynny dydi'r syniad ddim mor wreiddiol â hynny ond yn ddigon syml. Ac mae'n bosibl, wedi'r cyfan, mai'r syniadau syml ydi'r rhai mwyaf arwyddocaol. Un o'r syniadau mwyaf syml ond arwyddocaol ac allweddol yw bod Duw yn ein caru, mewn ffordd weithredol a diamod. Mae hyn mor amlwg fel ein bod yn aml yn anghofio ei ddweud. Dydi cariad Duw ddim yn dibynnu ar ba mor deilwng ydyn ni i'w dderbyn. Dydi o ddim yn cael ei roi yn anfoddog gan Dduw grwgnachlyd. Na, mae cariad Duw yn llifo fel y môr ac yn cael ei dywallt arnom. Dyma yw 'gras' Duw. Cariad yn cael ei raeadru ar bobl nad ydyn nhw'n ei haeddu. Dyna yw gras.

Byddwn yn sôn yn aml am ras, ond yn gwneud hynny mewn ffordd ddilornus ar brydiau. 'Wel mae eisiau gras efo'r dyn yma!' Ond dowch i ni fynd i'r afael â'r gwir ystyr. Rydyn ni'n credu bod Duw yn gwybod ac yn deall sut rai ydyn ni. Mae hynny'n dangos yn glir i ni na all Duw ein caru heb droi ei drwyn ar rai agweddau o'n personoliaeth. Os ydi Duw yn mynd i'n caru, bydd rhaid iddo roi rhyw fath o amod ar y cariad hwnnw. Fedrwech chi ddim rhoi cariad i rywun sy'n amharod i edifarhau. Ond nid felly mae hi ym mywyd y deyrnas. Mae llawer yn meddwl am y Ffydd Gristnogol yn nhermau rheolau a chyfyngiadau yn hytrach na thrugaredd, rhyddid, cariad, maddeuant a haelioni. A'r hyn yr ydyn ni wedi'i dderbyn, mae'n rhaid i ni fod yn barod i'w rannu. Rhannu'r cariad a'r gras ag eraill.

Yn Efengyl Ioan, fe welwn ym mhennod 2 bod Iesu'n cynhyrchu gwin wrth y bwcedaid; ym mhennod 4 mae'n lluosu'r bara a'r pysgod; ac ym mhennod 6 mae'n sôn am y dŵr bywiol sy'n para am byth. Mae'r

delweddau hyn i gyd yn dangos digonedd. Ydi hyn yn ddarlun o'n ffydd ni? Yn ystod ei weinidogaeth, wynebodd Iesu ddeddfoldeb ei ddydd, ond nid oedd yn barod i symud modfedd. Iddo ef, roedd gras yn rhad. Dyna a welir yn hanes y gweithwyr yn y winllan, a weithiodd un awr ond a gafodd yr un faint o gyflog â'r rhai a weithiodd ar hyd y dydd. Ond pan ddaeth y gweithwyr fu'n chwysu a llafurio drwy'r dydd i gwyno, fe ddywedwyd wrthyn nhw mai haelioni ac nid haeddiant sy'n cyfrif yn economi gras.

Felly, mae'n ofynnol i'r Cristion fyw yn agos at roddwr gras. Gofynnwch i chi eich hunain, ar daith bywyd pwy ydych wedi ei adnabod sy'n berson llawn gras. Mae'n bur debyg bod yna lawer yr ydych wedi eu hedmygu, eu hoffi a'u caru; ond pwy meddech chi oedd yn llawn gras. Mae'r bobl llawn gras yr ydw i wedi eu hadnabod yn bobl Grist-debyg. Felly, os ydyn ni'n barod i gadw'n agos at Iesu, efallai y byddwn yn byw yn fwy tebyg iddo.

Myfyrdod pellach:

Tybed ydyn ni'n rhy barod i fychanu gras Duw?

Ydych chwi wedi adnabod person llawn gras? Beth oedd ei nodweddion?